## NODIADAU ARIANNOL

### Cyfraniadau a chau’r llyfrau cyfrifon yn brydlon

Diolchir i nifer dda o’r aelodau am gyfrannu yn gynnar yn ystod eleni, ond fe apelir eto ar i’r gweddill ohonoch dalu eich cyfraniadau mewn da bryd, erbyn 30 Tachwedd, os gwelwch yn dda. Bydd hyn yn hwyluso’r Trysorydd yn fawr i gau’r llyfrau yn gynnar yn Ionawr 2004.

Bydd y Trysorydd i ffwrdd am ran helaeth o fis Tachwedd a bydd y llyfrau yng ngofal Mr Bryn Lloyd yn ystod y cyfnod yma. Felly, os bydd gennych unrhyw gwestiynau ynghylch eich cyfraniadau, bydd Mr Lloyd yn barod i’ch helpu.

### Cymorth Rhoddion a Chyfamodau

Fe fydd prydlondeb cau’r llyfrau yn gymorth hefyd i’r Ysgrifennydd Ariannol yn ei waith o wneud cais am ad-daliad treth incwm ar gymorth rhoddion a chyfamodau, sy’n ychwanegiad ariannol gwerthfawr iawn i’n coffrau ni. Mae nifer dda o’r aelodau yn awr yn manteisio ar yr arfer o gyfrannu drwy Gymorth Rhoddion ac anogir y gweddill ohonoch sy’n talu treth incwm ar y raddfa sylfaenol i ddilyn yr un patrwm.

*Gallwch gael ffurflenni Cymorth Rhoddion oddi wrth yr Ysgrifennydd Ariannol, Mr D Bryn Lloyd.*

Llawer o ddiolch i bawb am eu cefnogaeth barhaol i’n hymdrechion ni yn y Garn.

Cynhelir yr oedfaon am 10 a 5 o’r gloch.

Ysgol Sul y plant a’r ieuenctid am 10 o’r gloch.

Ysgol Sul i oedolion ym Methlehem, Llandre am 2 o’r gloch.

Yn dilyn oedfa’r bore, mae gwahoddiad cynnes i bawb gymdeithasu dros gwpanaid o de neu goffi – yr elw at gronfa’r adeiladau.


Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn 7 Rhagfyr i:

Mr Dewi G Hughes
Bod Hywel
(828026)
dewighughes@lineone.net

Mrs Marian B Hughes
14 Maes y Garn
(828662)
Marian_Hughes@btinternet.com

# GAIR O’R GARN

CYLCHLYTHYR EGLWYS Y GARN, BOW STREET



Rhif 11
Hydref 2003

**Duw cariad yw**

*Gweinidog*
Parch R W Jones
Haddef
6 Maes Afallen
Bow Street
(01970 828006)

*Ysgrifennydd*
Mr Eddie Jenkins
Eryl
Llandre
Bow Street
(01970 828147)

### *Gair gan y Gweinidog*

Mynd i wasanaeth y tu draw i'r Mynydd Du roeddwn ddydd Sadwrn diwethaf. Cyn dechrau dringo roedd aml i lecyn coediog i fynd drwyddo. Yn sydyn, dyma gawod o ddail yn cwympo o'm blaen cyn iddynt gael eu chwyrlïo i bob cyfeiriad gan y gwynt, a minnau'n meddwl, 'Mae'r hydref wedi dod'. Ac rwyf bron yn siwr i mi glywed dyn y tywydd yn dweud ar y teledu bod yr haf yn swyddogol drosodd.

Ond, a natur yn tynnu ati ac yn edwino, fe welwn, o ddarllen 'Gair o'r Garn', fod yr Eglwys fel pe'n deffro, wedi gwyliau'r haf, i weithgarwch newydd. Mae'r ysgol Sul a'r holl gymdeithasau gwahanol yn ailgydio yn eu gwaith. Yn fuan, cawn drwy ein Gwasanaeth Diolchgarwch fynegi ein gwerthfawrogiad i'r Arglwydd am ei ddaioni i ni, a chyn y bydd sŵn emynau ein diolch wedi cilio o'r cof, fe glywir sŵn carolau wrth inni ddathlu'r Nadolig.

Mae yna baratoi yn barod wedi bod; trwy lythyr a ffôn, cafwyd rhai i ddod i annerch ac i ddifyrru yn y gwahanol gyfarfodydd. Apêl, felly, ar i chwi fel Aelodau ddod i gefnogi, i roi help llaw, i ysgwyddo tipyn ar y cyfrifoldeb. Dewch er mwyn i ni fod yn gymorth i'n gilydd yn y gwaith o adeiladu'r Teulu.

* * * *

Sylweddolaf fod llwyddiannau wed bod mewn sawl maes yn ystod yr haf – mewn ysgol a choleg, mewn sioe ac eisteddfod. Llongyfarchiadau cynnes. Bydd rhai o'r plant a'r bobl ifanc yn newid ysgol ac eraill ar eu ffordd i goleg neu swydd. Ein dymuniadau gorau i chwi i gyd.

* * * *

Daeth yr haf a'i gyfran o ofid hefyd. Collwyd Jennie Edwards, 3 Tregerddan: coffa da am ei ffyddlondeb i'r Garn a'i gweithgawrch. Mae sawl un yn dioddef hefyd a ninnau'n eu colli o wasanaethau'r Sul. Ein cofion atynt i gyd.

***Robert W Jones***

### *Grŵp Help Llaw*

Bydd y Grŵp Help Llaw yn cwrdd am 2.30 o'r gloch bob prynhawn Mercher o hyn i'r Nadolig, oddieithr y prynhawn Mercher cyntaf o bob mis, pryd y cynhelir y Te Misol arferol.

Trowch i mewn am gwmni, sgwrs a phaned. Ar hyn o bryd rydym yn paratoi boscys ar gyfer Operation Christmas Child.

Croeso cynnes i bawb.

*Shân a Bethan*

*828268 neu 828503*



## Rhagfyr

| | |
|---|---|
| 3 | Cymdeithas y Chwiorydd – Te misol<br>Mrs Nia Lewis – Emyn a Charol |
| **7** | Parch Gareth Watts<br>Mr Gwyn Morgan |
| **14** | Parch Wiliam T E Owen |
| 19 | Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch<br>'Dathlu'r Nadolig' |
| **21** | Gwasanaethau Nadolig dan ofal y Bugail<br>Bore: y plant a'r bobl ifainc; nos: yr oedolion |
| 25 | Bore'r Nadolig – Oedfa gymun am 9 o'r gloch |
| **28** | Oedfa i'w threfnu<br>Bugail |
| 31 | Gwasanaeth Gwylnos dan ofal y Bugail<br>am 11.30 o'r gloch yr hwyr |

### *Ystyr y Nadolig*

Nadolig yw'r dod ynghyd
yn deuluoedd,
perthnasau,
a ffrindiau,
i ddangos cariad tuag at ei gilydd
mewn anrheg a chân
i gydlawenhau
bod Mab Duw wedi'i eni
yn blentyn

Helpa ni, Arglwydd
yn ein gwledda a'n miri
i gofio
mai pobl yw Nadolig:
teulu Mair a Joseff
a baban newydd . . .

## *Yr Adeiladau*

Fe welwch oddi wrth gyfrifon y Capel bob blwyddyn bod gwario cyson angenrheidiol ar adeiladau'r Capel, Tŷ'r Capel a Bethlehem, Llandre. Mae'r gwaith cynnal a chadw yn gyffredinol yn anochel a'r gost o wneud hynny yn cynyddu ar ein gwaethaf.

Ddwy flynedd yn ôl, fe beintiwyd y tu allan i'r Capel a Bethlehem. Y llynedd bu raid gwella cyntedd Bethlehem drwy wneud ramp a gosod drws newydd (drwy gymorth grant a gafwyd), ac yn gynharach eleni fe atgyweiriwyd blaen allanol Bethlehem, a rhan o'r to sy'n ymylu arno, i gadw effeithiau tywydd garw rhag achosi dirywiad yng nghragen yr adeilad.

Eto'n fuan fe drefnir gwaith sylweddol o ail-lechu wal Capel y Garn sy'n wynebu'r maes parcio, a disgwylir y gall yr adeiladydd wneud y gwaith cyn y Nadolig. Ers sawl blwyddyn bellach, mae llawer o'r llechi yn dod yn rhydd ac yn disgyn, yn enwedig mewn tywydd stormus, ac felly yn beryglus i unigolion sy'n mynd heibio, a'r rhai sy'n parcio'u moduron yn rhy agos i'r wal. Fel ymddiriedolwyr y Capel, mae arnom fel swyddogion gyfrifoldeb dros ddiogelwch y cyhoedd yng nghyffiniau'r Capel. Gan fod y Capel yn adeilad sydd wedi'i restru gan CADW, y corff sy'n gofalu am ddiogelu, cadw a hyrwyddo henebion ac adeiladau hanesyddol yng Nghymru, mae arnom ymrwymiad i ail-lechu'r wal, ac fe wneir hynny gyda llechi Cymreig i gydymffurfio â'r gofynion hyn. Bydd y gwaith hwn yn costio £17,300 ac ariennir y gost gan grantiau o nifer o ffynonellau elusennol ac awdurdodau lleol, gan gynnwys grant o 50% gan gronfa Cynllun Grantiau Cymunedol Cyngor Sir Ceredigion. Disgwylir i'r Capel gyfrannu hyd at oddeutu £1,700; bydd hyn yn cynnwys elw gwerthu nifer o'r llechi a fydd yn werth eu hachub wrth eu tynnu oddi ar y wal fel rhai ail-law.

O ganlyniad i adroddiad E C Harris yn 2001, mae gwaith yn cael ei gyflawni'n raddol ar nifer o'r awgrymiadau a gynhwyswyd yn yr adroddiad—materion iechyd a diogelwch o fewn yr adeilad yn bennaf.Yn sgil E C Harris, cafwyd adroddiad ar gyflwr y systemau trydan a bydd angen gweithredu argymhellion yr adroddiad hwnnw, ond yn ffodus ni fydd raid inni wynebu ail-weirio'r Capel, Bethlehem na Thŷ'r Capel. Serch hynny, fe fydd yna wariant ar rai agweddau, sef diweddaru darnau offer.

Rydym yn werthfawrogol iawn o'r gefnogaeth ariannol i gronfa'r adeiladau bob blwyddyn, ond mae'r baich yn trymhau ar hyn o bryd. Sylwyd bod peth gostyngiad yng nghyfanswm y cyfraniadau i'r cyfrif yn ddiweddar, a byddem yn croesawu mesur o gynnydd pan wneir y casgliadau arbennig bob chwarter.

D B Lloyd (Ysgrifennydd Ariannol)

### *Defosiwn*

Darllen: Luc 9; adnodau 57–62

Mae hi'n hen, hen stori. Dyn yn cerdded i lawr y stryd efo pengwin (arth, llew, mwnci etc.) a phlismon yn gofyn iddo, 'I ble ti'n mynd â hwnna?'

'I'r sŵ' oedd yr ateb. 'Iawn,' meddai'r plismon.

Y diwrnod wedyn, dyma'r plismon yn gweld y dyn efo'r pengwin eto.

'Gwranda, roeddwn i'n meddwl dy fod ti am fynd â hwnna i'r sŵ!'

'Do, mi fuon ni yno ddoe! Rydan ni'n mynd i'r sinema heddiw!'

'Ddoi di ddim i'r capel?' 'Na, mi es i ddoe! Pan o'n i'n blentyn! Heddiw dwi'n mynd i . . . !! Trist ynte.'

Ar drothwy ein diolchgarwch, ein diolchgarwch pennaf fydd ein ffyddlondeb.

Gweddi:

Cymer, Arglwydd, f'einioes i
i'w chysegru oll i ti;
cymer fy munudau i fod
fyth yn llifo er dy glod. Amen

### *Cymdeithas y Chwiorydd – Te Misol*

Cynhelir y Te Misol ar y prynhawn Mercher cyntaf yn y mis, ac mae croeso i bawb – gwŷr, gwragedd a phlant.

Diolch i'r canlynol am gytuno i weithredu fel pwyllgor trefnu yn ystod y flwyddyn, sef Medi 2003 hyd Fedi 2004:

Joyce Bowen, Rhiannon Evans, Shân Hayward, Marjorie Hughes, Rhian Jones, Elizabeth Lloyd Jones, Rhian Jones Steele, Margaret Rees.

Wedi iddi weithredu fel Trysorydd Cymdeithas Chwiorydd y Garn (o'r dyddiau pan enwyd ein cyfrif banc yn 'Garn Ladies Sewing Circle') tua phymtheg mlynedd ar hugain yn ôl, mae Mrs Annie Edwards yn bendant ei bod am ymddeol o'r swydd eleni. Mae ein dyled yn fawr a'n diolch yn ddiffuant – gobeithio y daw rhywun i lanw'r bwlch.

Diolch hefyd i'n Gweinidog a'n blaenoriaid am eu parodrwydd i gyflwyno rhannau rhagarweiniol y cyfarfodydd. Cafwyd sawl nodyn o werthfawrogiad am eu cyfraniad y llynedd, a gobeithio y bydd y drefn yn parhau!

Os oes unrhyw un yn cael anhawster i gyrraedd ein cyfarfodydd, cysylltwch â Marian Jenkins ar 828147.

## Hydref

1 Cymdeithas y Chwiorydd – Te misol am 2.30 o'r gloch
Mrs Iola Thomas – Gwaith Croesffyrdd / Crossroads

**5** Parch O T Evans

**12** Parch Stanley Lewis

16 Cylch Trafod am 7 o'r gloch

17 Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch
Darlith agoriadol gan Mr John Rees, Comins Coch (Brysgaga gynt)

**19** Sul Diolchgarwch dan ofal y Bugail
Cymun yn oedfa'r hwyr



23 Cyfarfod Gweddi am 7 o'r gloch

24 Cwrdd Diolchgarwch Bethlehem, Llandre
am 7 o'r gloch
Pregethir gan y Bugail, Y Parch R W Jones

**26** Parch Ieuan S. Jones
Bugail

30 Cylch Trafod am 7 o'r gloch

## Tachwedd

**2** Parch Dr J Tudno Williams

5 Cymdeithas y Chwiorydd – Te misol am 2.30 o'r gloch
Dr David James – Meddygon Myddfai

6 Cyfarfod Gweddi am 7 o'r gloch

**9** Mr Arwyn Pierce

13 Cylch Trafod am 7 o'r gloch

**16** Bugail (Y Garn yn uno yn Noddfa yn y bore;
cymun yn oedfa'r hwyr)

20 Cyfarfod Gweddi am 7 o'r gloch

21 Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch
Mr Geraint Lewis, Llangwyryfon

**23** Mr Aled Lewis Evans
Bugail (Oedfa'r hwyr ym Methlehem, Llandre)

29 Bore Coffi er budd yr Eglwys
yn Neuadd Rhydypennau, 10–12 o'r gloch

**30** Parch Tudor Davies